## Uned 332 – Cynllun Cyflwyno Enghreifftiol

Gellir defnyddio'r cynllun hwn i gyflwyno mewn bloc neu wedi'i wasgaru dros y flwyddyn academaidd.

| Wythnos gyflwyno | Thema | Meini prawf asesu a dargedir | Asesu |
|---|---|---|---|
| Wythnos 1 | Paratoi ar gyfer lleoliad gwaith | 1.1-1.12 | **Sesiwn addysgu** – Beth yw lleoliad gwaith?<br><br>**Sesiwn addysgu** – Gwybodaeth am fy lleoliad gwaith a'r hyn a ddisgwylir gennyf.<br><br>**Asesu** – Cyflwyniad dan arweiniad y dysgwr wedi'i gynhyrchu gan ddefnyddio PowerPoint. Sleidiau unigol yn targedu pob pwynt meini prawf. Yn cynnwys ymweliad â'r lleoliad gwaith gyda thiwtor/aseswr i gyflwyno'u hunain. |
| Wythnos 2 | Wythnos stori, rhigwm a cherddoriaeth | 2.1-2.4<br>3.1-3.4 | **Sesiwn addysgu** – Profiadau cerddorol i blant 0-7 oed.<br>Gweithgareddau cerddorol rhyngweithiol ar gael i'r dysgwr geisio rhoi cynnig arnynt a'u profi.<br>*Siaradwr gwadd* – cerddoriaeth a'r blynyddoedd cynnar. Cydweithio â'r dysgwyr cerddoriaeth yn y coleg i ddysgu sgìl newydd.<br><br>**Sesiwn addysgu** – Stori a rhigymau i blant 0-7 oed.<br>Gweithgareddau stori a rhigwm rhyngweithiol ar gael i'r dysgwr roi cynnig arnynt a'i profi.<br>*Siaradwr gwadd* – gweithdy storïwr.<br><br>**Asesu** – Dysgwr yn cynhyrchu sach stori, cerddoriaeth a rhigwm. Wedi'i ategu gan gynllun a gwerthusiad.<br>Adolygiad gan fentor cyfoed/tiwtor/gweithle ar adnodd i gefnogi â'r gwerthusiad.<br>Mynd â'r sach stori i'r lleoliad gwaith i gael adborth gan y mentor yn y gweithle yn ogystal â'r plant, o bosibl. |
| Wythnos 3 | Wythnos awyr agored a chynaliadwyedd | 5.1-5.4<br>7.1-7.4 | **Sesiwn addysgu** – Gweithgareddau awyr agored i blant 0-7 oed. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Gweithgareddau awyr agored rhyngweithiol ar gael i'r dysgwr roi cynnig arnynt a'u profi.<br>*Siaradwr gwadd* – Cydweithio â dysgwyr chwaraeon yn y coleg i ddysgu sgìl newydd a meddwl am weithgareddau ymarfer corff ac awyr agored.<br><br>**Sesiwn addysgu** – Cynaliadwyedd i blant 0-7 oed.<br>Gweithgareddau cynaliadwyedd rhyngweithiol ar gael i'r dysgwr roi cynnig arnynt a'u profi. *Siaradwr gwadd* – Cydweithio â hyrwyddwr cynaliadwyedd y coleg i ddysgu am ddulliau'r coleg a mentrau lleol. Ymweliad posibl â siop elusen leol neu ganolfan ailgylchu leol.<br><br>**Asesu** – Gweithgaredd awyr agored a gynlluniwyd ar destun cynaliadwyedd. Wedi'i ategu gan gynllun a gwerthusiad. Adolygiad gan fentor cyfoed/tiwtor/gweithle ar adnodd i gefnogi â'r gwerthusiad. Mynd â'r adnodd i'r lleoliad gwaith i gael adborth gan y mentor yn y gweithle yn ogystal â'r plant, o bosibl. |
| Wythnos 4 | Bwrdd arddangos/arddangosfa lesiant | 4.1-4.4<br>6.1-6.4 | **Sesiwn addysgu** – Cefnogi arddangosfa neu fwrdd testun wedi'i arwain gan blentyn. Arddangosfa a byrddau testun rhyngweithiol ar gael i'r dysgwr roi cynnig arnynt a'u profi.<br>*Siaradwr gwadd* – Siaradwr gwadd lliwddall a dyslecsig i gyflwyno ar sut i gyflwyno gwybodaeth, mathau o liwiau i'w defnyddio, gosodiad a fformat.<br><br>**Sesiwn addysgu** – Gweithgareddau llesiant i blant 0-7 oed.<br>Gweithgareddau llesiant rhyngweithiol ar gael i'r dysgwr roi cynnig arnynt a'u profi.<br><br>*Siaradwr gwadd* – Gweithdy ymwybyddiaeth ofalgar ar sut i ymgysylltu ag emosiynau a theimladau.<br><br>**Asesu** – Bwrdd testun neu fwrdd arddangos ar y testun llesiant wedi'i arwain gan blentyn. Wedi'i ategu gan gynllun a gwerthusiad. Adolygiad gan |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | fentor cyfoed/tiwtor/gweithle ar adnodd i gefnogi â'r gwerthusiad.<br>Mynd â'r adnodd i'r lleoliad gwaith i gael adborth gan y mentor yn y gweithle yn ogystal â'r plant, o bosibl. |
| Wythnos 5 | Wythnos y Gymraeg a diwylliant Cymru | 8.1-8.4 | **Sesiwn addysgu** – Yr Iaith Gymraeg i blant 0-7 oed. Gweithgareddau Iaith Gymraeg Rhyngweithiol ar gael i'r dysgwr roi cynnig arnynt a'u profi.<br><br>*Siaradwr gwadd* – sgiliau ieithyddol sylfaenol yn y Gymraeg.<br><br>**Sesiwn addysgu** – Diwylliant Cymru i blant 0-7 oed.<br>Gweithgareddau diwylliant Cymru rhyngweithiol ar gael i'r dysgwr roi cynnig arnynt a'u profi.<br><br>Siaradwr gwadd – Ymweliad â safle treftadaeth leol.<br><br>**Asesu** – Y dysgwr yn cynhyrchu gweithgaredd iaith Gymraeg a diwylliant Cymru sy'n addas i blant 0-7 oed.<br>Adolygiad gan fentor cyfoed/tiwtor/gweithle ar adnodd i gefnogi â'r gwerthusiad. |
| Wythnos 6 | Y dysgwr i lunio'r portffolio'n barod i'w farcio | Yr holl feini prawf | Y dysgwr i lunio portffolio sy'n dangos deilliannau dysgu 1-8.<br><br>Mae'r portffolio'n cynnwys yr holl asesiadau a gwblhawyd ar gyfer pob deilliant dysgu gyda thystiolaeth ategol. |